Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Caergeiliog

**Ysgol Sefydliedig Caergeiliog,**
**Caergeiliog,**
**Ynys Môn**
**LL65 3NP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Chwarae Caergeiliog gan Ysgol Sefydledig Caergeiliog yn 1981 ar gyfer darparu addysg cyn-ysgol ran-amser i blant dyflwydd a hanner a thair oed. Lleoliad annibynnol yw'r cylch chwarae. Nid oes yr un plentyn wedi'i ariannu gan yr awdurdod lleol (ALl). Tynnir plant o ardal eang a bernir nad ydynt yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais gymdeithasol ag economaidd.

Mae 16 o blant tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad gyda'r mwyafrif ohonynt yn mynychu pum sesiwn o hanner diwrnod yr wythnos. Derbynnir plant o bob gallu, a chefndir i'r lleoliad, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu sydd o grŵp ethnig. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag ADY ac nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Saesneg yw prif iaith y cartref i bron pob plentyn. Prif gyfrwng addysgu a dysgu’r lleoliad yw’r Saesneg er y gwneir defnydd rheolaidd o'r Gymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan bump o ymarferwyr llawn-amser gyda phob un ohonynt gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu’r blynyddoedd cynnar.

Mae'r adeiladau yn cynnwys ystafell ddosbarth helaeth ynghyd ag ardal y tu allan y rhennir gyda dosbarth meithrin yr ysgol.

Wedi i’r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad byddant yn parhau gyda’u haddysg yn nosbarth meithrin yr ysgolion cynradd.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Nhachwedd 2009. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- plant yn cyflawni safonau da, yn arbennig yn eu medrau cyfathrebu;
- pob plentyn yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu medrau dysgu;
- y profiadau dysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau o ansawdd uchel; a
- bod arweinyddiaeth a threfniadau hunan-arfarnu o ansawdd da.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r strategaethau cadarn a weithredir yn debyg o arwain at welliannau pellach;
- mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad; a bod
- y lleoliad yn manteisio'n sylweddol o'r cydweithio clos gyda'r ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 roi mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill; a

A2 diweddaru hyfforddiant amddiffyn plant yr ymarferwyr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O ystyried eu hoedran a'u cyfnod datblygu, mae pob un o'r plant yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu dysgu gyda rhai yn cyflawni safonau da iawn yn eu medrau cyfathrebu. Mae bron pob un plentyn yn dangos lefelau uchel o wybodaeth a dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu ac maent yn ymdopi'n dda â gweithgareddau heriol. Maent yn cymhwyso eu medrau'n gadarn iawn mewn ystod o gyd-destunau ac yn datblygu medrau ehangach a rhinweddau personol sydd eu hangen i fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae plant yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau gyda thasgau ac yn ymateb yn hyderus yn ystod gweithgareddau dewis rhydd.

**Lles: Da**

Mae pob un plentyn yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a chymhelliant tuag at ddysgu ac yn ymateb yn hyderus i brofiadau dysgu newydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut y gallant ddod yn iach drwy'r hyn maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol maent yn ymgymryd ag ef. Mae gan yr holl blant berthynas glos gydag ymarferwyr ac maent yn ymddiried yn eu harweiniad. Mae pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol. Nodwedd amlwg iawn o'r lleoliad yw'r ymddygiad da iawn a'r gofal a ddangosir gan blant tuag at ei gilydd. Wrth ymwneud â thasgau penodedig neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio'n gytûn ac yn dangos lefel dda o annibyniaeth. Mae pob un yn mwynhau ei amser yn y lleoliad.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ei adlewyrchu'n gryf yn ansawdd y cwricwlwm a ddarperir i blant. Trwy gynllunio manwl, llwydda'r ymarferwyr i ddarparu ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol ar gyfer plant ar draws pob maes dysgu. Caiff pob un ei herio gan weithgareddau perthnasol sy'n darparu dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau ehangach yn gydlynus ac wedi'i hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau pob un o'r plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd ac i ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Mae'r plant yn ymweld â lleoedd y tu allan i'r lleoliad yn achlysurol ac yn dysgu oddi wrth ymwelwyr â'r lleoliad. Maent yn cymryd rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad. Trwy ddathlu gwyliau a thraddodiadau Cymru, datblyga'r plant eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol yn effeithiol. Ychydig o gyfleoedd a roddir iddynt ddysgu am bobl o ddiwylliannau eraill.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen, ac mae ganddynt ddealltwriaeth uchel ar gyfer dysgu plant. Maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol ar draws pob maes dysgu ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau dysgu sy'n sicrhau ymglymiad a diddordeb plant o bob gallu. Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd mae'n briodol i ymyrryd yn dysgu'r plant ac maent yn gwneud hynny'n sensitif ac yn fedrus i annog plant i herio'u hunain wrth iddynt ddysgu. Maent yn llwyddo i gael cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rhai sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu. Mae ffocws clir i gymorth oedolion ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r plant. Caiff cynnydd a lles plant eu hasesu a'u holrhain yn fanwl ar draws meysydd dysgu a defnyddir yr wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio camau nesaf yn dysgu plant. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gyflawniadau, lles a datblygiad plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol os bydd heriau'n codi mewn perthynas â bwlio, ymddygiad annerbyniol a diogelu. Mae pob plentyn yn hyderus wrth ofyn i oedolyn am gymorth ac arweiniad. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ceisio gofalu bod anghenion pob unigolyn yn cael eu bodloni. Ceir trefniadau da ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allweddol. Mae'r cymorth wedi'i dargedu'n glir ac wedi arwain at gynnydd sylweddol yn natblygiad plant unigol. Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol ynghyd â'r berthynas agos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn llwyddiannus. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu. Nid yw eto wedi ymateb i argymhelliad adroddiad diwethaf AGGCC ynghylch uwchraddio hyfforddiant ymarferwyr ar ddiogelu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar y cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelod staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r ymarferwyr i greu amgylchedd ysgogol lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn o'i brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol. Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob un o'r meysydd dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan ac yn gymuned eu defnyddio'n effeithiol iawn i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae synnwyr cryf o ddiben yr arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n effeithiol. Caiff yr addysgu a'r dysgu eu rheoli'n dda, a gweithredir polisïau'r lleoliad yn effeithiol. Mae disgwyliadau'r arweinydd yn uchel ar gyfer sicrhau ansawdd a herio staff yn gadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas. Gwnânt yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r berthynas gyda phlant, y rhieni ar ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned. Mae pwyllgor rheoli sy'n cynnwys athrawon yr ysgol a'r rhieni, yn cyflawni ei gyfrifoldeb yn drylwyr iawn ac yn ddylanwadol o ran cynnal safonau uchel a phennu blaenoriaethau. Mae deilliannau ar gyfer plant yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda a chydag arweiniad pwrpasol yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli, yn hunan-arfarnu’n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu eu gwybodaeth gydag eraill yn y lleoliad. Mae hunan arfarniad yn rhoi ystyriaeth gofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawon yr ysgol. Mae'r camau a gymerwyd i godi safonau mewn meysydd megis y Gymraeg, wedi arwain at ddeiliannau cadarnhaol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant. Mae partneriaeth gynhyrchiol dros ben gyda'r ysgol gynradd ac mae cysylltiadau addas gyda nifer o sefydliadau ac asiantaethau addysg. Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni yn y lleoliad. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn manteisio ar bob cyfle i'w cynnwys yn addysg eu plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant. Gwneir defnydd addas o adnoddau a chysylltiadau cymunedol i gefnogi dysgu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol a defnyddir staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae trefniadau priodol ar gyfer bodloni anghenion datblygu staff sy'n sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol o ddatblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen. Rheolir yr holl adnoddau'n dda. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth briodol o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus gan yr arweinydd i

wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Roedd y pedwar holiadur y rhieni a dderbyniwyd  yn gadarnhaol.  Dywed y rhieni bod eu plant wedi ymgartrefu'n dda, maent yn mwynhau mynychu'r lleoliad ac  yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.  Mae'r rhieni yn fodlon gyda'r wybodaeth a gânt am gynnydd eu plentyn a dywedant fod y lleoliad yn cael ei reoli'n dda.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Dywed plant eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)